Diweddarwyd ddiwethaf Ebrill 2013

# GWASANAETHAU CYMDEITHASOL CONWY

## Polisi Codi Tâl Dros Dro Ar Gyfer Gwasanaethau Nad Ydynt Yn Rhai Preswyl

(Cyfeiriwch at y Canllaw Ffioedd ar gyfer Llety Preswyl (CRAG) i gael gwybodaeth am ffioedd lletyau preswyl)



CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Cynnwys


| **Rhan 1** | **Tudalen** |
| --- | --- |
| Cefndir Deddfwriaethol | 1 |
| Amcanion Polisi Conwy | 2 |
| Egwyddorion Codi Tâl Conwy | 2 |
| | |
| **Rhan 2** | |
| Gwasanaethau mae’r Polisi yn ymwneud â nhw | 3 |
| Ffioedd gwasanaethau yn y cartref | 3 |
| Ffioedd am Ofal Seibiant | 4 |
| Grwpiau Cleientiaid y mae’r Polisi yn ymwneud â nhw | 4 |
| Beth yw asesiad ariannol | 4 |

**Atodiad 1**

Canllaw ar gyfer Codi Tâl am Ofal Cymdeithasol Oedolion

Ar gyfer Pobl sy’n Byw Gartref

# Polisi Codi Tâl Conwy

## RHAN UN

## 1. Cefndir Deddfwriaethol

1.1 Mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 i ddarparu ystod o wasanaethau cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl i ddiwallu anghenion cymwys yn dilyn asesiad.

1.2 Mae Adran 17 Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Arfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 yn rhoi pŵer dewisol i gynghorau godi tâl ar oedolion sy'n cael gwasanaethau nad ydynt yn rhai preswyl er nad oes raid iddynt wneud hyn.

1.3 Cyhoeddwyd Canllawiau Statudol o'r enw 'Polisïau Codi Tâl Tecach ar gyfer Gofal yn y Cartref a Gwasanaethau Cymdeithasol eraill nad ydynt yn rhai preswyl' ym mis Gorffennaf 2002. Nod y canllaw hwn oedd helpu Awdurdodau lleol sy'n penderfynu codi tâl am Wasanaethau Cymdeithasol nad ydynt yn rhai preswyl i ddylunio polisïau codi tâl teg a rhesymol.

1.4 Cyflwyno'r Canllaw diwygiedig i'r 'Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesiad Modd a Phenderfynu ar y Ffioedd) (Cymru) 2011' a ddaeth i rym fis Ebrill 2011 bedwar gofyniad newydd ar gyfer Awdurdodau Lleol i'w dilyn wrth weithredu polisïau codi tâl.

- gwneud yn siŵr nad yw'r incwm net defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei leihau ar ôl codi tal sy'n is na lefelau 'sylfaenol' Cymhorthdal Incwm, neu'n is na'r lefel sicrwydd credyd priodol (fel y diffiniwyd gan y trefniadau Credyd Pensiwn), a byffer o ddim llai na 45% o hwn
- diystyru unrhyw daliadau credyd cynilion sydd wedi eu cael dan y trefniadau Credyd Pensiwn
- diystyru'r holl enillion fel rhan o incwm mewn asesiadau codi tâl. Gan gynnwys asesiadau codi tâl ar gyfer gofalwyr a
- gwneud yn siŵr bod cynilion a chyfyngiadau cyfalaf o leiaf mor hael â rhai a nodwyd yn y Canllaw Codi Tâl am Lety Preswyl pan fo awdurdodau lleol yn ystyried y rhain.
- Sicrhau ffi uchafswm o £50 yr wythnos fesul Defnyddiwr Gwasanaeth ar gyfer gofal dibreswyl.

1.5 Cyflwynwyd Cefnogi Pobl yng Nghymru – 'Asesiad codi tâl ac asesiad ariannol ar gyfer Unigolion sy'n cael Gwasanaethau Cefnogi Pobl' ym mis Mawrth 2004. Wrth ddatblygu eu polisïau codi tâl y mae disgwyl i awdurdodau gydymffurfio â threfnau Codi Tâl Teg (fel ei gweithredwyd yn lleol) gan sicrhau bod unigolion sy'n cael Budd-dal Tai yn cael gwasanaeth cefnogi pobl am ddim.

## 2. Amcanion Polisi Conwy

2.1 Darparu polisi ar gyfer codi tâl am wasanaethau sy'n gyson, yn deg ac yn dilyn egwyddorion ac arferion asesu safonol lle bo hynny'n bosibl. Os oes gwiriad oddi wrth egwyddorion cyffredinol am ryw reswm penodol dylai'r rhain fod yn eglur.

## 3. Egwyddorion Polisi Codi Tâl Conwy

3.1 Dylai'r safonau sydd wedi eu cymhwyso i'r broses asesu ariannol gael ei gymhwyso yn gyson ar gyfer pob grŵp cleient Gwasanaethau Cefnogi Pobl a gwasanaeth gofal cymunedol.

3.2 Bydd y Polisi Codi Tâl yn adlewyrchu ymrwymiad yr Awdurdod i ddarparu gwasanaethau ataliol ac o ganlyniad bydd yn darparu rhai gwasanaethau ataliol penodol am ddim.

3.3 Mewn llawer o feysydd Gwasanaeth bydd unigolion sy'n cael gwasanaethau gan y Gwasanaethau Plant yn eu cael am ddim ond bydd ffioedd ar gyfer rhai meysydd gwasanaeth penodol.

3.4 Bydd y Polisi Codi Tâl yn cydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb i wneud yn siŵr nad oes gwahaniaethu yn erbyn unigolion ar sail hil, ethnigrwydd, crefydd a chredo, oedran, rhyw, tueddfryd rhywiol neu anabledd neu'r iaith Gymraeg. Bydd unigolion sy'n cael gwasanaethau ac yn talu am y gwasanaethau yn cael gwybodaeth mewn fformat priodol a bydd hyn yn cydymffurfio â pholisi iaith Gymraeg Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

3.5 Gan fynd â'r egwyddor cyffredinol o ddiwallu anghenion, gellir defnyddio disgresiwn mewn amgylchiadau eithriadol trwy gyfeirio'r achos i'r broses adolygu, fel amlinellwyd yn 'Rheoliadau Ffioedd Gofal Cymdeithasol (Asesiad Modd a Phenderfynu ar Ffioedd) (Cymru) 2011'.

3.6 Bydd ffioedd am wasanaethau yn seiliedig ar lefel y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu (fel y nodwyd gan asesiad) a'r gallu i dalu gan ddilyn Canllawiau Statudol

3.7 Bydd cyngor budd-daliadau lles ar gael i'r holl ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael asesiad ariannol er mwyn cael yr incwm uchaf ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth.

3.8 Bydd unrhyw Ddefnyddiwr Gwasanaeth (neu eu cynrychiolydd) sydd ddim yn fodlon rhoi'r wybodaeth angenrheidiol gorfod talu cost lawn gwasanaethau. Os bydd yr unigolyn yn parhau i wrthod talu'r ffi sydd wedi ei asesu gall yr Awdurdod geisio cael y taliad trwy ddilyn prosesau adennill dyledion arferol yr Awdurdod Lleol.

3.9 Bydd ffioedd yn cael eu hadolygu yn gyfnodol a chânt eu rheoli gan ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

3.10 Nid chodir tâl am roi cyngor ar argaeledd gwasanaethau neu asesiadau, gan gynnwys asesiadau anghenion gofal cymunedol.

3.11 Polisi'r Cyngor yw annog a galluogi unigolion sy'n dymuno cael eu cyflogi i wneud hynny gan gynnwys pobl gydag anableddau a'u gofalwyr. Ni fydd

Polisi Codi Tâl yn gweithredu fel anghymhelliad i weithio, felly yn y Gwasanaethau Oedolion bydd yr holl enillion, budd-daliadau yn lle enillion a chredydau treth gwaith yn cael ei diystyru gan asesiadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai preswyl.

3.12 Codir ffioedd o'r dyddiad derbynnir gwasanaethau heblaw am unrhyw gyfnod un ai o ail alluogi neu Wasanaeth Gofal Canolradd Cymunedol (CICS) a fydd yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim am hyd at 6 wythnos. (O.N. Mae hyn hefyd yn berthnasol i gleientiaid Tai Gofal Ychwanegol).

## RHAN DAU

### 4. Gwasanaethau y mae'r Polisi yn Ymwneud â Nhw

4.1 Bydd y Polisi Codi Tâl yn ymwneud â'r holl wasanaethau Gofal yn y Cartref a Gofal Dydd (Gweler pwynt 5) ond ni chodir tâl am y canlynol.

4.1.1 Gwasanaethau sydd wedi eu cynllunio i ddarparu cyfleoedd gwaith a pharatoi ar gyfer gwaith gyda'r nod y bydd y defnyddiwr gwasanaeth fyn cael mynediad at wir gyfleoedd gwaith. Bydd hyn ond yn cyfeirio at yr achosion hynny lle mae cynllun clir gyda chyfyngiad amser ar gyfer integreiddio i leoliadau gwaith prif ffrwd wedi nodi. (Nid yw hyn yn cyfeirio at weithgareddau dydd tymor hir.)

4.1.2 Gwasanaeth ail alluogi am hyd at 6 wythnos wedi ei ddarparu gan Wasanaeth Gofal Canolradd Conwy (CICS) neu'r gwasanaeth ail alluogi gofal tymor byr mewnol i gynorthwyo unigolion i adael yr ysbyty neu osgoi gorfod mynd i sefydliad gofal.

4.1.3 Mae gwasanaethau yn cael ei rhoi am ddim i ofalwyr am 6 wythnos gyntaf neu 6 sesiwn gyntaf y gwasanaeth a nodwyd os ydynt yn bodloni'r meini prawf canlynol.

a) Rhaid i'r angen am y gwasanaeth fod o ganlyniad i'r Asesiad gofalwyr dan y Ddeddf Gofalwyr Plant Anabl 2000.
b) Mae'n rhaid i'r gofalydd cael y gwasanaeth yn uniongyrchol yn hytrach na'r unigolyn dan ofal.

4.1.4 Ni ellir codi tâl am wasanaethau ôl ofal a ddarparwyd dan adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983 dan adran 17 Deddf HASSASSA 1983, ond nid yw hyn yn berthnasol i unigolion sy'n cael gwasanaethau gan y gwasanaeth iechyd meddwl (nid dan adran 117) oherwydd anghenion corfforol.

### 5 Ffioedd ar gyfer gwasanaethau gofal yn y cartref

5.1 Bydd ffioedd ar gyfer cefnogaeth yn y cartref yn cael ei gyfrifo ar sail yr union oriau a ddarparwyd.

5.2 Bydd ffioedd am ofal a ddarperir mewn Sefydliad Gofal Ychwanegol a gwasanaethau cefnogaeth gymunedol mewnol (gan gynnwys gwasanaethau dementia) yn cael eu pennu yn seiliedig ar anghenion a amlygwyd yn y cynllun gofal.

### 6. Ffioedd Gwasanaethau Eraill heb fod o dan asesiad ariannol ond sy'n ymddangos o dan Ffioedd Tecach.

6.1 Codir tâl am bryd ar glyd a phrydau sy'n cael eu darparu fel rhan o Ofal dydd ar gyfradd sefydlog sy'n cael ei adolygu yn flynyddol. Bydd y ffioedd hyn yn cael eu talu yn uniongyrchol i'r darparwr gwasanaeth.

6.2 Bydd rhaid i ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n cael lwfans symudedd neu sydd â char symudedd dalu eu costau cludiant ei hunain ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

6.3 Codir ffi gosod safonol a ffi monitro wythnosol am offer Teleofal.

## 7. Y Ffioedd am Ofal Seibiant

7.1 Bydd y rhain yn dod o dan y polisi codi tâl ar gyfer Gofal Preswyl.

## 8. Grwpiau Cleientiaid y mae'r Polisi yn ymwneud â nhw

8.1 Yr holl oedolion sy'n cael gwasanaeth oddi wrth Wasanaethau Cymdeithasol.

## 9. Beth yw Asesiad Ariannol a pha Incwm a Threuliau sy'n cael eu Diystyru o'r Cyllid Cyfrifo?

9.1 Bydd swm yr incwm a chynilion y mae unigolion yn eu cael yn cael ei ystyried wrth benderfynu faint fydd cost y gwasanaethau. Bydd asesiad ariannol yn cael ei wneud yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd gan y defnyddiwr gwasanaeth ar ffurflen asesu ariannol. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon bydd swyddog asesu ariannol yn cyfrifo'r swm sydd i'w gyfrannu gan yr unigolyn; ond bydd ychydig o incwm a chyfalaf yn cael ei ddiystyru yn rhannol neu yn gyfan gwbl. Mae'r incwm a'r cyfalaf bydd yn cael ei diystyru yn cael ei hegluro ymhellach yn y ddogfen Talu am Ofal nad yw'n Ofal preswyl 2013-2014 (ynghlwm).

9.2 Bydd gwybodaeth fanylach am lefel presennol y ffioedd ar gyfer gwahanol wasanaethau a sut y bydd y broses asesu yn cael ei chyflawni yn cael eu cynnwys yn y taflenni gwybodaeth Canllaw i Ffioedd ar gyfer Gwasanaethau nad ydynt yn Wasanaethau Preswyl a'r canllaw i ffioedd gwasanaethau preswyl sydd ar gael ar y wefan yn www.conwy.gov.uk <http://www.conwy.gov.uk> a gan Swyddfeydd Gwasanaethau Cymdeithasol.